**CYNGOR CYMUNED BUAN**

**Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd Nos Iau, 14 Rhagfyr, 2023**

**Yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy am 7.30 yh**

**<u>Presennol:</u>**

**Cynghorwyr**

Rhys Jones (Is-Gadeirydd)

Catherine Hughes

Phil Roberts

Nia Jane Owen-Midwood (Clerc)

Einir Lewis

Wynne Davies

**1.Ymddiheuriadau**
Cafwyd ymddiheuriadau gan Hughie Williams (Cadeirydd), Cynghorydd Nia M Jones, Cynghorydd Dafydd Ll Williams, Cynghorydd Sirol Anwen Davies a'r Cynghorydd Tesni Jones.

**2. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Tachwedd.**
Cadarnhawyd bod cofnodion 09/11/23 yn gywir gan y Cynghorydd Catherine Hughes ac fe'i heilwyd gan y Cynghorydd Phil Roberts.

Nid oedd materion newydd yn codi.

**3. Cae Chwarae a Maes Parcio, Rhydyclafdy**
Bu i CH rannu gwybodaeth am ddyfynbris y concrid oedd HW wedi ei dderbyn gan y contractwr Ken Jones, sef swm o £1,880.00 am y slab concrid. Bu i'r Pwyllgor drafod y pris gan gytuno iddo, HW i gysylltu gyda Ken Jones i gario mlaen hefo'r gwaith.

**4. Pwyllgor Cae Chwarae, Rhydyclafdy**
Gofynnodd RJ pe byddai Cyngor Cymuned Buan yn ariannu'r cynllun yma. Gofynnwyd y cwestiwn "os byddai'r grant o £72,000 yn gallu cael ei dalu i gyfrif Banc Cyngor Cymuned Buan, ermwyn i Bwyllgor y Cae Chwarae allu hawlio'r TAW yn ei ôl?" Trafodwyd hyn, a chytunwyd i edrych i mewn i'r achos yn fwy manwl.

Gofynnwyd y cwestiwn i Gyngor Gymuned Buan "faint yn ychwanegol fydde yswiriant y Cyngor pe byddai offer chwarae yn cael ei ychwanegu i'r polisi ?"

Mi fyddai Pwyllgor y Cae Chwarae yn talu'r gwahaniaeth. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda Zurich er mwyn gweld faint fyddai'n gostio'n ychwanegol i wneud hyn.

**5. Gohebiaeth**
Cytunwyd i'r Cyngor roi cyfraniad ariannol o £50 tuag at Radio Ysbyty Gwynedd.

Cytunwyd i'r Cyngor roi cyfraniad ariannol o £50 tuag at Urdd Gobaith Cymru.

Cytunwyd i'r Cyngor roi cyfraniad ariannol o £100 tuag at Gylch Meithrin Pentreuchaf.

**6. Cais Cynllunio**
C22/0705/33/LL – Tŷ Cynan, Rhydyclafdy – Cais ar gyfer creu menter pigo ffrwythau eich hunain i gynnwys newidiadau i'r fynedfa gerbydol.
Penderfynwyd y Pwyllgor i gefnogi'r cais yma. Clerc i nodi'r penderfyniad ar bortal Cynllunio, Cyngor Gwynedd ac i ofyn y cwestiwn "beth yw'r mynediad arall sydd wedi ei greu wrth ochr y Cae Sewerage?"

C23/0961/33/DT – Wrth y Bont, Rhydyclafdy – Dymchwel y porth cefn presennol estyniad tô fflat ac adeiladu dau estyniad.
Penderfynwyd y Pwyllgor i gefnogi'r cais yma.

C23/0913/33/DT Cais Cynllunio – Y Bwthyn, Ceidio, Pwllheli – estyniad llawr cyntaf i'r eiddo. Bu i ni drafod y cais yn ystod y cyfarfod, ond yn anffodus roedd y cais wedi ein cyrraedd yn hwyr i ni allu rhoi sylwadau ar y Portal Cynllunio.

**7.** Nid oedd yr un Gynghorydd yn datgan diddordeb.

**8. Materion ariannol**

Praesept 2024/2025 – Bu i ni drafod y praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol 24/25. Trafodwyd y swm rydym yn ei dderbyn ddwywaith mewn blwyddyn, gan gysidro ei godi o £1875.00 i £2,000.00. Penderfynnwyd ei drafod yng nghyfarfod Mis Ionawr a gwneud y penderfyniad bryd hynny gan bod angen i'r gwaith papur gael ei gwblhau a'i yrru yn ôl i'r Adran Gyllid, Cyngor Gwynedd erbyn 26/01/24.

**Cysoniad banc o ddyddiad:**
04/10/23 – 03/11/23 - £6,366.63c
04/11/23 – 03/12/23 - £3,129.96c

Cafodd 5 siec eu harwyddo yn ystod y mis gan y Cynghorydd Catherine Hughes a'r Cynghorydd Rhys Jones.

| | | |
|---|---|---|
| Siec Rhif 200764 | Costau Teithio'r Clerc | £6.30 |
| Siec Rhif 200765 | Cyflog y Clerc | £111.79 |
| Siec Rhif 200766 | Cyllid a Thollau | £28.00 |
| Siec Rhif 200767 | Hurio Ystafell i gynnal y cyfarfod yn Twnti | £20.00 |
| Siec Rhif 200768 | Arfon Parry, Cradur.com (Gwaith Gwefan) | £42.00 |

**9. Unrhyw fater arall**

Bu i ni drafod y dail sydd wedi hel ar y ffyrdd yn ddiweddar, sydd wedi creu i'r cwterydd gau, ac mae hyn wedi creu i ddamweiniau ddigwydd.

Cytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd i nodi'r canlynol:

- Cwterydd angen eu glanhau wrth Nant, Boduan, Lon Isaf a Glanrafon, Boduan.
- Brigyn Coeden rhwng Bryn Bach a Pyllau, Rhydyclafdy angen ei drin.
- Glanhau'r mwd ar y lôn rhwng Groesffordd Ceidio lawr am fynediad i'r hen "Ddymp" (man sbwriel) yn Ceidio.
- Glanhau'r draen sydd wedi cau wrth ymyl Maesoglan, Ceidio.

Bu i WD arwyddo'r gwaith papur – Lwfans Cynghorydd a hefyd cwblhau'r daflen manylion cyswllt y Cynghorwyr.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf: 11/01/24 yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy am 7.30yh**